CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 12 IONAWR 2021.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mrs Arianwen Owen, Mrs Sharon Barton, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Selwyn Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Hefyd, Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen.

2 YMDDIHEURIADAU:

2.1 Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth Cynghorydd Mr Myfyr Davies & Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Nid oedd neb yn Datgan Diddordeb.

5 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad byr oddiwrth Cynghorydd Sirol, Mr Bryan Owen ar y materion canlynol:

5.1 Sefyllfa presennol COFID19 ar yr Ynys gyda gwybodaeth sefydlu canolfan leol er mwyn gweinyddu'r brechlyn.

5.2 Adroddiad a Newidiadau ym Mhorthladd Caergybi a effaith economaidd ar yr Ynys yn dilyn Brexit.

6 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

6.1 Adroddiad byr ar werth yr adeilad a faint o waith cynnal a chadw fydd arno.

6.2 Adroddiad y bydd cyfarfod o Bwyllgor yr Ymddiriedolwyr ar y 14/1/2021.

6.3 Disgwyl mwy o ddatblygiad pendant erbyn Mis Mai 2021.

Arwyddo……..

7 CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.

7.1 Cyfarfod Misol 17/11/2020 – cynnig (AH), eilio (GL) ei bod yn rhai cywir.

8 Adroddiad Coeden wedi disgyn ger Pumping Station Hermon (A4080) Llangadwaladr i Fodorgan.

8.1 Nodwyd fod Gwaith i'r 4 golau stryd ger Stad Glascoed a oedd heb weithio ers stormydd Mis Awst wedi ei gywiro.

9 Gosod Gorsaf Sylfaen Arfaethedig - DNS Llangadwaldr, Bodorgan, Ynys Môn, LL62 5LU.

9.1 Nid oedd gwrthwynebiad i'r safle newydd dynodedig er ei fod mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a gall ail-leoli y gorsaf fod o fudd cymunedol

10 Derbyn Adroddiad Archwiliad Allanol 2020.

10.1 Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn yr adroddiad yn nol oddiwrth yr Archwilydd Allanol ac nid oedd unrhyw fater wedi dod i'w sylw fyddai angen cyhoeddi adroddiad ychwanegol. Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol i'r aelodau i'w gymeradwyo a derbyn gan y Cyngor.
PENDERFYNIAD: Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Clerc.

11 Cadarnhau Taliadau & Derbyniadau.

Cytunwyd aelodau gyda talu rhestr llawn o'r taliadau a derbyniadau y Cyngor fel y ganlyn:

Taliadau:

11.1	Mr J A Foulkes – Cyflog Clerc – Hydref > Rhagfyr 2020	£772.80
11.2	HMRC – PAYE	£193.20
11.3	Archwilio Cymru – Archwiliad Blynyddol	£237.90
	Derbyniadau:	
11.4	CSYM – Cymorthdal Llwybrau Cyhoeddus 2020	£865.00
11.5	CSYM – 3ydd Rhandaliad Priseb 2020/2021	£3,833.33

Arwyddo……..

12 Cysoni Mantolen Banc hyd at 31.12.2020:

CYSONI BANC	2020 / 2021
Gweddill 1af Tachwedd 2020	£ 22,859.36
DERBYNIADAU	£ 6,351.91
Llai TALIADAU	-£ 5,521.91
GWEDDILL 31 RHAGFYR 2020.	£ 23,689.36
BALANS CYFRIFON BANC	2020 / 2021
Cyfrif Cyfredol	£ 23,689.36
Llai Siec Heb Cyflwyno	- £ NIL
CYFANSWM	£ 23,689.36

13 Derbyn & Cywiro Cofnodion Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid.

Cyfarfod Gynhaliwyd 15/12/2020 – cynnig (AH), eilio (TO) ei bod yn rhai cywir.

14 Derbyn Argymelliad Priseb y Cyngor ar gyfer 2021 / 2022.

Nodwyd popeth yr hyn a ddywedwyd yng nghyfarfod Cyllid
Penderfyniad: Derbyn yr argymelliad yn unfrydol (AH/DJ)

15 Materion Mynwent Trefdraeth

15.1 Cytunwyd gyda amcangyfrif a dderbyniwyd oddiwrth Mr Les Thomas (£200) am waith cynnal a chadw brys oedd angen i wneud.

15.2 Cytunwyd fod angen trefnu Archwiliad Coed o amgylch terfyn y Fynwent.
Penderfyniad: Clerc i drefnu.

16 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD:

16.1 Cais Llawn – Addasu & Ehangu yn: **Bryn Hyfryd, Bodorgan. Rhif Cais: HHP/2020/277**
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

16.2 (Cynllun Diwygiedig) - Cais llawn ar gyfer trosi adeiladau allanol i fod yn Dý Gwyliau ynghyd a newidiadau i'r mynedfa presennol a gosod system trin carfosaeth yn:
Cae'r Ddol, Bodorgan – Rhif Cais: FPL/2020/134.
Penderfyniad: Parhau i wrthwynebu'r cais ar sawl sail gan gynnwys lleoliad y safle mewn cefn gwlad, addasrwydd ffyrdd, bioamrywiaeth ac fod yn groes i rheolau cynllunio. Nodwyd hefyd bod y cais yn ddiffygiol gan nad oedd wedi cynnwys unrhyw ddogfennau/adroddiadau ategol. Nodwyd fod carafán statig wedi ei osod ar y safle a gofyn i Cynghorydd Bryan Owen fynd ar afael y mater.

Arwyddo……..

17 Gohebiaeth

Dosbarthwyd y gohebiaeth er gwybodaeth yn unig:

17.1 **Gohebiaeth Coronafeirws.**

17.2 **Sefyllfa Diweddaraf Porthladd Caergybi.**

17.3 **Eich tref, eich dyfodol!**

17.4 **DIWRNOD GWEITHWYR Y GIG, GOFAL CYMDEITHASOL & RHENG FLAEN 5ED GORFFENNAF 2021.**

17.5 **Ail-Drefnu Isetholidau Llywodraeth Leol.**

18 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS MAWRTH 2021 (9/3/2021).

18.1 Diolchodd y Cadeirydd i pob aelod am fynychu. Fe clowyd y cyfarfod am 7:50yh.